**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithaso

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

2 Mehefin 2023

Annwyl Russell a Jenny,

**Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig**

Rwy'n ymddiheuro am yr oedi wrth ymateb i'ch llythyr mewn perthynas â'r ffaith bod Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion wedi tynnu sylw at argymhelliad 37 o adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd flaenorol ynghylch anghydraddoldeb a'r pandemig. Mae'r argymhelliad hwn yn galw am gael arweinydd hygyrchedd o fewn Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gwaith o lunio'r holl wybodaeth am iechyd y cyhoedd a gwybodaeth arall mewn fformatau hygyrch. Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod yr argymhelliad hwn yn cael effaith glir ar y maes portffolio hwnnw hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n cael ei gynhyrchu ar gael i bawb yng Nghymru.  Fe gofiwch ein bod, yn ystod pandemig Covid-19, wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth gyhoeddus yn gwbl hygyrch, ac roedd dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ym mhob un o'n cynadleddau newyddion Covid-19. Roeddem hefyd wedi sicrhau bod fersiynau print bras a braille o'r dogfennau allweddol ar gael ar gais ochr yn ochr â ffurfiau hygyrch eraill o'r dogfennau hynny, dogfennau megis y llythyrau gwarchod gan y Prif Swyddog Meddygol.

Yn ystod y pandemig fe sefydlwyd Grŵp Cyfathrebu Hygyrch, i drafod a goresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gafael ar wybodaeth. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys ystod eang o sefydliadau, sydd wedi cael profiad o'r anawsterau y mae rhai pobl anabl wedi'u hwynebu wrth geisio cael gafael ar wybodaeth glir a chryno yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae'r grŵp hefyd yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli ffoaduriaid, plant a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Aeth y grŵp ati gyda'i gilydd i gyd-greu canllawiau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sy'n nodi'r safonau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu bodloni i sicrhau bod gwybodaeth a gaiff ei chyfathrebu yn hygyrch ac yn diwallu anghenion pobl ledled Cymru.

Rydym yn parhau i ddiweddaru a gwella ein cyngor a'n canllawiau ar hygyrchedd yn drawslywodraethol. Mae hyn yn gosod safonau clir a dealladwy sy'n berthnasol i'r llywodraeth gyfan ac yn rhoi fframwaith i bob adran i ddarparu gwybodaeth allweddol mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb. Mae sicrhau bod y deunydd y maent yn ei gynhyrchu yn cyd-fynd â'r safonau hyn yn gyfrifoldeb ar bob rhan o’r llywodraeth. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r safonau hynny, mae'n amlwg, o ystyried ehangder a chymhlethdod ei chyfrifoldebau polisi, mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi corff sylweddol iawn o ddeunydd bob blwyddyn, a byddai'n amhosibl i un unigolyn oruchwylio’r cyfan yn effeithiol. Byddwn yn parhau i ystyried cadw'r argymhelliad ar gyfer un arweinydd, ond mae'r dull presennol o weithredu cyfrifoldeb hygyrchedd ar draws y system, a gyflawnir ar sail drawslywodraethol, a chan ddefnyddio safonau cyffredin, yn ei gwneud yn bosibl darparu’n effeithiol i ddiwallu anghenion pobl Cymru.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a chodau ymarfer ategol yn nodi gofynion, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, i sicrhau cydraddoldeb mynediad at wasanaethau.  Mae hyn yn cynnwys gofalu bod awdurdodau lleol yn darparu cyngor a chymorth gwybodaeth sy'n ymwneud â gofal a chymorth, sy'n hygyrch ac yn diwallu anghenion y boblogaeth. Hefyd, wrth ddarparu gofal a chymorth, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio'r iaith angenrheidiol a'r dulliau cyfathrebu a ffefrir, er enghraifft Iaith Arwyddion Prydain, braille, fersiynau print bras.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl allu cymryd rhan lawn yn yr asesiad o'u hanghenion posibl.  Rhaid i bawb allu mynegi eu barn, eu dymuniadau a’u teimladau fel partner cyfartal ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r hyn y maent am ei gyflawni.  Mae ein Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gefnogi pobl i allu gwneud hyn.

Mae Deddf 2014 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol asesu a chynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth y boblogaeth. Mae'r canllawiau'n nodi themâu craidd ar gyfer yr asesiadau poblogaeth hyn a chynlluniau ardal, gan gynnwys darparu ar gyfer y rhai sydd ag amhariad ar y synhwyrau.

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o gefnogi pob person anabl yng Nghymru. Rydym wedi sefydlu'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl a fydd yn weithredol tan 2024. Mae'n dod â phobl sydd â phrofiad bywyd, Arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru a sefydliadau cynrychioliadol at ei gilydd i nodi'r materion a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl anabl. Mae'r Tasglu'n gweithio o fewn cwmpas cylch gwaith cyfreithiol Llywodraeth Cymru ac nid mewn meysydd sy'n dod o dan gyfrifoldebau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn unig.

Sefydlodd y Tasglu nifer o ffrydiau gwaith a nodwyd fel meysydd blaenoriaeth:

- Gwreiddio a Deall y Model Cymdeithasol o Anabledd (ledled Cymru)
- Mynediad at Wasanaethau (gan gynnwys Cyfathrebu a Thechnoleg)
- Byw'n Annibynnol: Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol
- Teithio
- Cyflogaeth ac Incwm
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Plant a Phobl Ifanc
- Y System Cyfiawnder Troseddol

Mae gan y Gweithgorau amrywiaeth o randdeiliaid sy'n cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl, pobl anabl sydd â phrofiad bywyd ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys aelodau sy'n ddall ac yn rhannol ddall sy’n darparu profiad bywyd i’r gweithgorau, gan gynnwys profiadau o deithio a chael mynediad at wasanaethau. Bydd yr argymhellion sy'n cael eu cydgynhyrchu gan y gweithgorau yn ffurfio cynllun gweithredu, a fydd yn gwella bywydau pobl anabl yng Nghymru.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**